



Astudiaeth  
Achos

Rokas Bakutis

Ysgol

Ysgol Uwchradd Gatholig Sant  
Richard Gwyn  
Albert Ave, Y Fflint  
CH6 5JC

Astudiodd Rokas Mathemateg Bellach UG gyda FMSP yn 2016/17. Astudiodd FP1, FP2 a S2 yn BI 12, ac mae bellach yn mynd i flwyddyn 13 i astudio gweddill y Safon Uwch. Mae hefyd yn astudio mathemateg, ffiseg a chemeg.

**Sut y cyflwynwyd yr hyfforddiant?**

Dysgwyd y cwrs yn bennaf 2 awr yr wythnos mewn ysgol arall (Ysgol Uwchradd y Fflint) a rhoddwyd mwy o gefnogaeth trwy sesiynau adolygu; mi ddysgais y gweddill yn bennaf trwy gyfoedion ac ychydig ar-lein.

Darparodd FMSP adnoddau da iawn fel y sesiynau adolygu ym Mangor a'r wefan Integral. Roedd y sesiynau yn drylwyr iawn ac yn llawn gwybodaeth, ac roedd y wefan yn gymharol hawdd i lywio gyda digon o wybodaeth ddefnyddiol.

**Pa sgiliau allweddol ydych chi'n meddwl y mae astudio Mathemateg Bellach wedi eu rhoi i chi? A oedd yn wahanol i lefelau A eraill o gwbl a sut?**

Mae wedi fy nysgu i astudio llawer mwy yn annibynnol.

Rwy'n credu bod angen i chi wneud mwy o waith ar gyfer Mathemateg Bellach i gymharu â phynciau eraill - nid yn unig y mae hi'n dipyn mwy o her yn fy marn i (i'm pynciau eraill Mathemateg, Ffiseg a Chemeg), ond, yn fy ysgol, roedd llawer llai o addysgu hefyd (2 awr yr wythnos o'i gymharu â 5 ar gyfer pynciau eraill). Felly nid yn unig roedd yn fwy o waith, ond roedd yn rhaid iddo gael ei gwblhau llawer mwy annibynnol hefyd.

**Beth oedd y rhan mwyaf pleserus a gawsoch fel rhan o astudio drwy'r FMSP?**

Mae'n debyg mai dod i adnabod ffrindiau tebyg wrth i ni rannu lifftiau i Fangor ar gyfer sesiynau adolygu Sadwrn oedd y rhan mwyaf pleserus. Ynghyd â dysgu mathemateg newydd (roeddwn yn cael bodlonrwydd rhyfeddol gyda rhai o'r nodiadau!).

**Sut mae'ch ffrindiau'n teimlo am eich penderfyniad i astudio Mathemateg Bellach?**

Mae rhai o'm ffrindiau yn meddwl sut y mae'n bosib ymdopi â phwnc mor anodd, ac mae eraill yn difaru peidio â'i gymryd gan fod hyn wedi cyfyngu rhagolygon eu gyrfya yn y dyfodol.

Rwyf wedi gwneud ychydig o ffrindiau newydd, oherwydd bod y dosbarthiadau mor fach; mae'n diweddu'n gymuned eithaf clos.

**A fyddech chi'n annog eraill i astudio Mathemateg Bellach? Oes gennych chi unrhyw awgrymiadau i eraill?**

Byddwn yn annog eraill.

Fy nghyngor fyddai: sicrhau eich bod yn mynd i bob gwern bosib a phob sesiwn adolygu posibl, er mwyn peidio â chael eich gadael ar ôl (mae hyn yn haws na'i ddysgu eich hun gan fod cefnogaeth broffesiynol); sicrhewch eich bod yn hyfedr yn y Safon Uwch Mathemateg arferol, gan y bydd yn llawer anoddach cwblhau gwaith Mathemateg Bellach os nad ydych (er fy mod wedi canfod bod Mathemateg Bellach wedi helpu llawer gyda Mathemateg arferol); ceisiwch adolygu ac atgyfnerthu'r hyn a ddysgwyd yn gyson, heb esgeuluso eich pynciau eraill.

Byddwch yn llwyddo os ydych yn drefnus gyda chymhelliant a chysondeb

**Beth sydd nesaf i chi?**

Rwy'n gwneud cais eleni i astudio Mathemateg yn y brifysgolion Rhydychen, Loughborough, Leeds a Chaerfaddon mwy na thebyg